SCHEDULE

**Trefn y Ffurflenni**

# FFURFLEN 34

## DEDDF TAI 1985

## ADRAN 364

RHYBUDD SY'N EI GWNEUD YN OFYNNOL CYFLWYNO GWYBODAETH AR ÔL CYFLWYNO RHYBUDD GORDYRRU MEWNPERTHYNAS Â THŶ MEWN AMLDDALIADAETH

At , deiliad yr eiddo a elwir

1. Bu i Gyngor ar gyflwyno rhybudd gordyrru o dan adran 358 Deddf Tai 1985 mewn perthynas â'r eiddo, ac mae'r rhybudd hwnnw'n dal mewn grym.

2. Mae'r Cyngor, drwy ymarfer eu pwerau o dan adran 364 y Ddeddf, yn ei gwneud yn ofynnol i chi gyflwyno iddynt ddatganiad ysgrifenedig sy'n rhoi'r wybodaeth ganlynol–

(a) nifer yr unigolion sy'n meddiannu unrhyw ran o'r eiddo fel llety cysgu ar ;

[(b) nifer y teuluoedd y mae'r unigolion hynny'n perthyn iddynt;]

[(c) enwau'r unigolion [ac enw penteulu pob un o'r teuluoedd hynny];]

[(d) yr ystafelloedd a ddefnyddir gan [yr unigolion] [a'r] [y] [teuluoedd] hynny].

3. Dylid gadael y datganiad yn neu ei anfon drwy'r post i'r cyfeiriad hwn cyn pen 7 niwrnod ar ôl cyflwyno'r rhybudd hwn i chi.

[Dyddiad a llofnod]

NODYN

Os ydych yn methu'n fwriadol â rhoi i'r Cyngor y wybodaeth a fynnir gan y rhybudd hwn, neu os cyflwynwch ddatganiad y gwyddoch ei fod yn ffug mewn perthynas â manylyn materol, byddwch yn cyflawni trosedd y gellir ei chosbi yn llys yr ynadon â dirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.

(Deddf Tai 1985, adran 364(2))